

Gwerthusiad Beirniadol o Addysg Ysgrifennu a Strategaethau Arweinwyr i Drawsnewid Addysg Saesneg Iaith yn y Sector Cynradd: Astudiaeth Achos

Catherine Louise Clements

CRYNODEB

Nod y Cwricwlwm i Gymru yw paratoi cenedlaethau'r dyfodol gyda'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Gan ddefnyddio dull astudiaeth achos dulliau cymysg, bu'r astudiaeth fach hon yn archwilio diwygio Saesneg o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm i Gymru newydd. Gwerthusodd yr astudiaeth raddfa fach hon lwyddiant strategaethau ysgrifennu seiliedig ar dystiolaeth mewn un ysgol gynradd yn Ne Cymru (Ysgol X) ac archwiliodd hyder a chredoau athrawon mewn perthynas ag addysgu ysgrifennu.

Casglwyd data trwy holiaduron ymarferwyr (n=9) a chyfweliadau lled-strwythuredig (n=3). Dangosodd y canfyddiadau fod strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn effeithiol wrth gefnogi datblygiad ysgrifennu, ond bod angen eu datblygu ymhellach i fod yn effeithiol ym mhob dosbarth. Gwnaeth yr astudiaeth hefyd archwilio'r gydberthynas rhwng credoau, hyder a dulliau addysgu dewisol athrawon.

Mae'r astudiaeth hon yn darparu enghraifft o roi diwygio'r cwricwlwm ar waith yng Nghymru, gan gyfrannu at drafodaeth barhaus ynghylch arweinyddiaeth pwnc ac addysg ysgrifennu effeithiol, gydag argymhellion ar gyfer ymarfer athrawon yn y dyfodol.

Geiriau allweddol: cwricwlwm i gymru, addysg saesneg, addysg ysgrifennu, arweinyddiaeth, diwygio'r cwricwlwm

Cyflwyniad

Nod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020) yw arfogi myfyrwyr â'r sgiliau sydd eu hangen i wynebu gofynion y dyfodol. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos dirywiad cenedlaethol mewn ymgysylltiad a chyrhaeddiad o ran ysgrifennu, gydag Estyn (2021) yn nodi bod ysgrifennu yn wendid mewn llawer o ysgolion cynradd yng Nghymru. Roedd hyfedredd ysgrifennu islaw disgwyliadau cenedlaethol yn yr ysgol dan sylw yn yr astudiaeth, gyda newidiadau staff ac amhariadau Covid-19 wedi effeithio arno. Felly, y rhesymeg dros yr astudiaeth oedd ffocws ar ddarpariaeth effeithiol ar gyfer gwella ysgrifennu, trwy weithredu menter ysgrifennu bwrpasol a strwythuredig i wella ymgysylltiad disgyblion a chynyddu hyfedredd ysgrifennu plant (Helen Bowen Education, d.d.). At ddibenion yr astudiaeth hon, enwyd y rhaglen ysgrifennu flaengar hon yn 'Raglen A'. Roedd y rhaglen yn darparu proses gylchol tair wythnos i addysgu ysgrifennu yn benodol gan ddefnyddio strategaethau addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yn cefnogi disgyblion i gasglu'r cynnwys ar gyfer eu hysgrifennu, deall cyd-destun a phwrpas eu hysgrifennu a rhoi sgiliau iddynt ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o ffurfiau. Yn ogystal, cynhaliwyd gwerthusiad o strategaethau arweinyddiaeth i oresgyn heriau i ddiwygio fel agweddau staff, cydweithredu, a blinder newid.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn archwilio ymchwil allweddol i addysgu ysgrifennu, gan nodi heriau ac arferion gorau byd-eang. Roedd y llenyddiaeth yn tynnu sylw at dair prif broblem sy'n cyfrannu at addysgu ysgrifennu gwael ledled y byd: y defnydd anghyson o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Parr a Jesson, 2016; Rietdijk, 2018; De Abreu Malpique, 2023), amser addysgu annigonol (DfE, 2012b; Rietdijk et al., 2018), a dylanwad credoau a hunan-ffeithiolrwydd athrawon ar addysgu ysgrifennu (Graham a Rijlaarsdam, 2016; Parr a Jesson, 2016). Datgelodd hefyd ddiffyg ymchwil benodol i'r DU ynglŷn ag addysgu ysgrifennu (Ofsted, 2005; KPMG, 2009; Estyn, 2021; Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, 2022), gyda chanfyddiadau rhyngwladol yn darparu mewnelediadau ehangach (Kirsch et al., 2002; Graham a Gillespie, 2010; DfE, 2012b; De Abreu Malpique, 2023). Er bod hyfedredd ysgrifennu yn her fyd-eang, daeth strategaethau llwyddiannus i athrawon ar gyfer addysgu

ysgrifennu i'r amlwg ar draws llenyddiaeth ryngwladol, sy'n nodi eu perthnasedd posibl, er gwaethaf gwahaniaethau a chyd-destunau diwylliannol (Graham, 2018).

Y prif strategaethau addysgu byd-eang seiliedig ar dystiolaeth a nodwyd oedd Ysgrifennu Proses, Ysgrifennu Genre, ac Ysgrifennu Cyfathrebol sy'n seiliedig ar Lafaredd. Mae Ysgrifennu Proses yn pwysleisio dull cylchol, parhaus o ail-ddrafftio ac adolygu i wella ysgrifennu (Flower a Hayes, 1981; Graham et al., 2012; Abbruscato, 2022), er bod angen rhoi'r strategaeth hon ar waith yn ofalus i fod yn fodel effeithiol. Mae Ysgrifennu Genre yn darparu dull sydd wedi'i sgaffaldio'n helaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio meini prawf llwyddiant i wella a llywio datblygiad ysgrifennu plant (DfE, 2012b; Parr a Jesson, 2016; Rietdijk, 2018), er bod Hermansson et al. (2019) yn esbonio y gall hyn arwain at 'or-sgaffaldio' a allai rwystro annibyniaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr. Mae Ysgrifennu Cyfathrebol Seiliedig ar Lafaredd yn rhoi dysgu cydweithredol a datblygiad iaith lafar wrth wraidd datblygiad ysgrifennu effeithiol (Corbett a Strong, 2011), gydag ymchwil o Seland Newydd yn enwedig yn cefnogi ei effeithiolrwydd (Parr a Jesson, 2016). Er bod Ysgrifennu Proses, Ysgrifennu Genre, ac Ysgrifennu Cyfathrebol Seiliedig ar Lafaredd yn cael eu hargymhell yn eang (Flower a Hayes, 1981; Corbett a Strong, 2011; Graham, 2018), mae eu llwyddiant yn dibynnu ar y cyd-destun ac mae astudiaethau'n dangos nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson oherwydd cyfyngiadau amser a hyder athrawon (Gilbert a Graham, 2010; Brindle et al., 2016; Dockrell et al., 2016). Canfuwyd bod athrawon yn aml yn blaenoriaethu sgiliau sylfaenol fel sillafu ac atalnodi dros addysgu'r broses ysgrifennu (Rietdijk, 2018; De Abreu Malpique, 2023), gyda'u profiadau eu hunain a'u hunan-effeithiolrwydd yn dylanwadu ar hyn o bosibl (Graham, 2019; Banales et al., 2020). Felly, mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at lenwi bylchau yn y maes, drwy werthuso'r strategaethau hyn a gefnogir yn rhyngwladol o fewn un cyd-destun ysgol penodol yng Nghymru.

Mae arweinyddiaeth yn chwarae rôl hanfodol wrth wella addysgu ysgrifennu trwy ddatblygiad proffesiynol a chyfathrebu effeithiol (Parr a Jesson, 2016; Fullan, 2011) ac mae astudiaethau'n awgrymu bod arweinyddiaeth gref yn meithrin hyder athrawon ac yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm (Collins, 2001; Sinek, 2009). Felly, ymchwiliodd yr hon ymhellach yn benodol i sut y gallai Ysgol X addysgu ysgrifennu yn well trwy ystyried dyrannu amser ar gyfer ysgrifennu, credoau athrawon, a strategaethau arweinyddiaeth, i sicrhau addysg ysgrifennu o ansawdd uchel.

Methodoleg

Defnyddiwyd cyfuniad o fethodoleg astudiaeth achos ac ymchwil weithredu i gael dealltwriaeth ddofn o'r cyd-destun ac i gefnogi gwelliant sefydliadol (Lune a Berg, 2017; Cohen et al., 2018; Denscombe, 2014). Roedd hyn yn addas iawn i ddatblygu'r cwricwlwm yn Ysgol X. Arweiniwyd yr astudiaeth gan epistemoleg ddeongliadol ac ontoleg adeiladol, gan gydnabod bod realiti cymdeithasol yn cael ei siapio gan brofiadau goddrychol (Thomas, 2023). Roedd dulliau ethnograffig, gan gynnwys cyfweiliadau, yn darparu persbectif mewnol (Denscombe, 2014), tra'n cydnabod tuedd sefyllfa'r ymchwilyr (Bell a Waters, 2018).

Moeseg

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol cyn i'r casglu data ddechrau a dilynwyd canllawiau Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2024) drwy'r ymchwil i gyd. Gofynion BERA (2024) yw cyfranogiad gwirfoddol a datgeliad llawn; roedd taflen wybodaeth i gyfranogwyr yn amlinellu nodau, amcanion a disgwyliadau'r ymchwil, a chwblhaodd cyfranogwyr ffurflen gydsynio.

Pwysleisiwyd yr hawl i dynnu'n ôl, yn unol â Gray (2017) a BERA (2024), sy'n nodi y dylai cyfranogwyr allu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb gyfiawnhad ac ailadroddwyd hyn ar hyd yr astudiaeth.

Rhoddwyd blaenoriaeth i breifatrwydd a chyfrinachedd, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn ddienw o dan y Ddeddf Diogelu Data (2018), a hysbyswyd cyfranogwyr y gallai fod angen hepgor cyfrinachedd mewn achosion o bryderon diogelu. Roedd data yn cael ei storio'n ddiogel gan ddefnyddio One Drive y Brifysgol, a chafodd hunaniaethau cyfranogwyr eu hanonymaiddio gan ddefnyddio dynodwyr wedi'u codio.

Tynnodd Denscombe (2014) sylw at her tuedd pan fydd athrawon-ymchwilyr yn ceisio cydbwysu rolau ymarferwyr ac ymchwilyr (Bell a Waters, 2018). Mae'r astudiaeth yn mynd i'r afael â hyn trwy fabwysiadu dull 'Ymholiad Cydweithredol' Street a Timperley (2005), gan hyrwyddo gwaith tîm a phersbectif ontolegol adeiladol. Mae'r dull hwn yn gosod yr ymchwilydd fel cyfranogwr gweithredol ochr yn ochr â chyfranogwr staff. Er gwaethaf ymdrechion i leihau tuedd, ystyriwyd

sefyllfa'r ymchwilydd wrth ddadansoddi data, gan dderbyn bod hyn yn parhau i fod yn gyfyngiad i'r astudiaeth.

Y Weithdrefn Samplu a Disgrifiad Ohoni

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull ansoddol i werthuso Rhaglen A, gan archwilio credoau athrawon trwy holiaduron a chyfweliadau. Hwylusodd cwestiynau graddfa Likert y gwaith casglu data cychwynnol (Greetham, 2014; Thomas, 2023) tra bod data ansoddol yn darparu mewnwelediadau cyfoethog, manwl. Roedd dull cymysg yn caniatáu triongli, gan wella dibynadwyedd (Denscombe, 2014; Walliman, 2022). Er i Bryman (2015) nodi anghysondebau mewn ymchwil dull cymysg, dadleuodd Walliman (2022) fod y rhain yn meithrin ymholi pellach.

Cafodd cyfranogwyr eu samplu'n strategol. Dosbarthwyd holiadur cychwynnol i naw athro, ac yna cafodd tri chyfwelydd eu samplu'n fwriadus (Lune a Berg, 2017). Roedd meini prawf dethol yn seiliedig ar ymatebion yr oedd angen ymhelaethu arnynt neu yn gwyro oddi wrth ymchwil bresennol. Cymerodd athrawon o wahanol grwpiau blwyddyn ran i asesu gwahaniaethau yn yr addysgu oherwydd oedran y myfyrwyr. Casglwyd data rhwng Mehefin a Gorffennaf 2024 ac roedd y canfyddiadau yn llywio Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer 2024–2025.

Cynhyrchu a Dadansoddi Data

Rhoddodd cyfweliadau fewnwelediadau cyfoethocach a manylach yn dilyn yr holiadur (Kvale, 2007; Bell a Waters, 2018). Roedd cyfweliadau lled-strwythuredig, a oedd yn caniatáu hyblygrwydd wrth gadw ffocws y sgwrs, yn archwilio canfyddiadau athrawon yn fanwl ac yn cyd-fynd â dulliau ethnograffig yr astudiaeth ac ontoleg adeiladol, gan alluogi profiad dysgu i'r cyfranogwr a'r ymchwilydd (Denscombe, 2014; Edward a Holland, 2013).

Cymhwyswyd dull casgliadol ar gyfer dadansoddi data, gan ddefnyddio model dadansoddi thematig Braun a Clarke (2022) i nodi patrymau mewn data ansoddol. Defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol ar gyfer ymatebion meintiol, gyda dadansoddiad gwledol a chymharol i nodi tueddiadau a chydberthynas rhwng credoau athrawon ac arferion addysgol.

Canlyniadau a Thrafodaeth

Nod y dadansoddiad data oedd archwilio sut roedd darpariaeth yn Ysgol X yn gwella safonau ysgrifennu a sut y gall Arweinydd Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu sicrhau gweithrediad llwyddiannus rhaglen ysgrifennu. Daeth pum thema i'r amlwg o'r dadansoddiad, gan dynnu o'r llenyddiaeth a adolygwyd ar strategaethau addysgu, dyrannu amser, credoau athrawon, hunan-ffeithiolrwydd, ac arweinyddiaeth (Graham a Gillespie, 2010; Fullan, 2010).

Thema 1: Gwerthusiad o Addysg Ysgrifennu Seiliedig ar Dystiolaeth

Datgelodd y dadansoddiad fewnwelediadau i dair arfer addysgu allweddol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer addysgu ysgrifennu o fewn Rhaglen A yn Ysgol X: Ysgrifennu Proses, Ysgrifennu Genre, ac Ysgrifennu Cyfathrebol Seiliedig ar Lafaredd.

Defnyddiwyd Ysgrifennu Proses yn helaeth, er bod amrywiadau o ran ei gymhwyso. Roedd lleiafrif o gyfranogwyr, yn enwedig yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, nad oeddent yn ei ddysgu, gan alinio â llenyddiaeth sy'n awgrymu y dylid ei gyflwyno o Flwyddyn 2 ymlaen (Graham et al., 2012). Defnyddiodd eraill Ysgrifennu Proses yn llinellol, a arweiniodd at golli diddordeb ymhlith myfyrwyr oherwydd drafftiau ailadroddus. Mae hyn yn cefnogi gweld Ysgrifennu Proses fel proses gylchol, hyblyg sy'n mireinio a gwella ysgrifennu'n gyson (Flower a Hayes, 1981; Abbruscato, 2002). Mae tua 45 y cant o athrawon eisoes wedi ei ddefnyddio yn ailadroddus, gan ddangos arferion gorau ar gyfer datblygu sgiliau ysgrifennu effeithiol.

Roedd Ysgrifennu Genre yn cynnwys defnyddio Meini Prawf Llwyddiant i lywio ysgrifennu myfyrwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o athrawon eu bod yn defnyddio Meini Prawf Llwyddiant yn rheolaidd, gan ymgorffori Meini Prawf Llwyddiant ysgrifenedig a llafar i gefnogi disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd traean o athrawon, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau blwyddyn iau, yn gweld Meini Prawf Llwyddiant yn ddefnyddiol. Felly, roedd yn ymddangos eu bod yn tyfu mewn effeithiolrwydd gyda chynnydd myfyrwyr (Hermansson et al., 2019). Fodd bynnag, addasodd rhai athrawon Meini Prawf Llwyddiant i adborth llafar, gan awgrymu gwahaniaethu i ddysgwyr iau, ac felly mae hwn yn ateb posibl i wella Ysgrifennu Genre mewn dosbarthiadau iau.

Roedd llafaredd yn cael ei ystyried yn hanfodol i'r broses ysgrifennu. Roedd pob athro yn cydnabod ei bwysigrwydd cyn ysgrifennu annibynnol. Roedd athrawon yn gyffredinol yn teimlo'n hyderus wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau llafaredd, er bod dau athro wedi mynegi llai o hyder oherwydd eu bod wedi dychwelyd i'r ysgol yn ddiweddar neu wedi bod yn absennol o ddatblygiad proffesiynol. Mae hyn yn awgrymu bod llafaredd yn agwedd gref ar Raglen A yn Ysgol X, gan elwa ar ddatblygiad proffesiynol diweddar a oedd yn canolbwyntio ar destunau cyfoethog a gweithgareddau ysgrifennu cydweithredol.

Thema 2: Dyrannu Amser ar gyfer Addysgu Ysgrifennu

Roedd y data yn tynnu sylw at anghysondeb o ran amser ar gyfer addysgu ysgrifennu. Roedd rhai athrawon yn teimlo bod eu dyraniad amser delfrydol yn fwy na'r amser y gallant ei ddyrannu mewn gwirionedd oherwydd pwysau'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol (Rietdijk, 2018; Parr a Jesson, 2016). Er bod yr amser a ddyrennir ar gyfer ysgrifennu ar hyn o bryd yn ddigonol ar y cyfan, mae angen egluro ac integreiddio addysg ffoneg orfodol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Er gwaethaf pwysau amser, blaenoriaethodd rhai athrawon Ysgrifennu Proses, yn enwedig mewn grwpiau blwyddyn uwch, gan ddilyn arferion gorau (Graham et al., 2012). Fodd bynnag, mae rhai athrawon yn parhau i fod yn anhyderus wrth addysgu Ysgrifennu Proses ac anaml y byddant yn ei addysgu, yn gyson ag ymchwil sy'n cysylltu hyder athrawon ag addysgu effeithiol (Dockrell et al., 2016). Er mwyn gwella safonau ysgrifennu, mae dull cytbwys rhwng Sgiliau Ysgrifennu Sylfaenol ac Ysgrifennu Proses yn hanfodol, ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol parhaus a chefnogaeth arweinyddiaeth.

Thema 3: Credoau Damcaniaethol Athrawon

Datgelodd data'r holiadur fod athrawon yn ffafrio Addysgu Penodol ac Ysgrifennu Cywir yn bennaf yn eu harferion addysgu, gan alinio â dulliau a chredoau systematig, ffurfiol. Er gwaethaf y dewisiadau hyn, roedd athrawon hefyd yn gwerthfawrogi'r broses ysgrifennu, gan eu bod yn cefnogi agweddau ar Ddysgu Naturiol, megis y ffocws ar gyfansoddi yn hytrach na'r canlyniad terfynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod Rhaglen A yn integreiddio nifer o ddamcaniaethau addysgu. Yn gyffredinol, dangosodd athrawon gefnogaeth wannach i ddulliau Dysgu Naturiol, sy'n pwysleisio

adborth gan gymheiriaid ac ysgrifennu manteisgar – mae hyn yn gyson ag ymchwil flaenorol (Graham et al., 2002; White a Bruning, 2005).

Datgelodd dadansoddiad pellach o gredoau damcaniaethol athrawon wrthgyferbyniad; er bod gan y staff gredoau Trafodiadol yn bennaf – gan bwysleisio cyfathrebu a chydweithio – roedd eu haddysgu'n cyd-fynd yn fwy â chredoau Trosglwyddo, gan ganolbwyntio ar Addysgu Penodol ac Ysgrifennu Cywir (White a Bruning, 2005). Mae hyn yn awgrymu cydberthynas wan rhwng credoau athrawon a'u harferion addysgu, yn groes i'r llenyddiaeth (Graham et al., 2002; White a Bruning, 2005). Hwyrach bod y gwrthgyferbyniad hwn yn cael ei ddylanwadu gan hyfforddiant diweddar yn gysylltiedig â Rhaglen A, sy'n cyfuno agweddau ar ddulliau a damcaniaethau. Mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad bod credoau athrawon yn gymhleth ac yn gyd-ddibynnol, gan gefnogi'r angen am ddull cytbwys sy'n integreiddio Ysgrifennu Cywir, Addysgu Penodol, a Dysgu Naturiol i feithrin addysg ysgrifennu effeithiol (Graham et al., 2021).

Thema 4: Hyder a Datblygiad Proffesiynol Athrawon

Datgelodd y data ganfyddiadau cymysg o hyfforddiant cyn gwasanaeth, gyda rhai athrawon yn teimlo ei fod yn annigonol, sy'n alinio ag ymchwil ar hyfforddiant athrawon annigonol ar addysgu ysgrifennu (Graham et al., 2002; Gilbert a Graham, 2010). Roedd hyder mewn addysgu Sgiliau Sylfaenol ac Ysgrifennu Proses yn deillio o brofiad a datblygiad proffesiynol yn hytrach na hyfforddiant cyn gwasanaeth. Roedd athrawon yn gofyn am gymorth i fapio'r cwricwlwm, arsylwi ar wersi, ac adnoddau yn ogystal â hyfforddiant penodol mewn Cyfathrebu ac Ysgrifennu Proses, gan alinio ag ymchwil Parr a Jesson (2016) sy'n pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant o ansawdd uchel i wella hyder a gallu athrawon.

Thema 5: Galluoedd Arweinyddiaeth

Roedd athrawon yn gwerthfawrogi parch, cydweithredu a gostyngeiddrwydd mewn arweinwyr, gan alinio ag argymhellion arweinyddiaeth effeithiol (Collins, 2001; Hargreaves et al., 2014). Mae'r rhinweddau hyn, sy'n ganolog i arweinyddiaeth Lefel 5 Collins, yn pwysleisio diymhongarwch, parch a gwaith tîm, sydd wedi'u blaenoriaethu trwy weithredu Rhaglen A trwy fynd ati'n gydweithredol i newid y cwricwlwm a chroesawu adborth gan staff. Er bod dibynadwyedd, canmoliaeth ac

uchelgais yn cael sgôr is, roeddent yn parhau i fod yn bwysig. Roedd athrawon yn blaenoriaethu rhai priodolledau, ond roedd cyfathrebu ac ymrwymiad hefyd yn chwarae rolau allweddol mewn effeithiolrwydd arweinyddiaeth (Sinek, 2009; Fullan, 2011). Byddai ymchwil bellach i ddatblygu'r galluoedd arwain hyn yn Ysgol X yn cefnogi datblygiad pellach y cwricwlwm.

Casgliad

Roedd yr ymchwil hon yn gwerthuso'n feirniadol weithrediad Rhaglen A yn Ysgol X, gan ganolbwyntio ar ei heffaith ar safonau ysgrifennu a'r heriau mae arweinwyr canol yn eu hwynebu wrth ddiwygio'r cwricwlwm. Datgelodd y canfyddiadau lwyddiant Rhaglen A, gydag arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cefnogi ymgysylltiad disgyblion a chynnydd yn eu hysgrifennu. Mae hyder athrawon yn cael ei siapio mwy gan brofiad a datblygiad proffesiynol na hyfforddiant cyn gwasanaeth. Mae rhinweddau arweinyddiaeth allweddol ar gyfer llwyddiant yn cynnwys parch, cydweithredu a gostyngeiddrwydd.

Mae'r argymhellion yn cynnwys ymgorffori Ysgrifennu Proses a Genre mewn blynyddoedd iau ac adolygu dyrannu amser ar gyfer Addysgu Ysgrifennu. Mae cyfyngiadau'n cynnwys maint sampl bach a chyfyngiadau amser. Mae angen rhagor o ymchwil i asesu gwelliannau ysgrifennu hirdymor a gwella arweinyddiaeth yn Ysgol X i gefnogi diwygio (Graham et al., 2002; Parr a Jesson, 2016).

Cydnabyddiaethau

Hoffwn ddiolch i'm goruchwylydd, Mr Rhys Lloyd, am ei arweiniad a'i adborth, a Dr Rhiannon Packer am ei chefnogaeth. Diolch yn fawr iawn i'm pennaeth, Mrs Laura Taylor, am ganiatáu imi gydbwyso fy astudiaethau ochr yn ochr ag addysgu, ac i Lywodraeth Cymru am ariannu'r cwrs MA Genedlaethol mewn Addysg. Hoffwn hefyd ddiolch i'm cydweithwyr, yn enwedig y rhai a gymerodd ran mewn cyfweiliadau, am eu hamser, eu cefnogaeth a'u cyfraniad at fy ymchwil. Ac fel bob amser, rwy'n dragwyddol ddiolchgar i'm ffrindiau, fy nheulu a fy ngŵr, am eu cariad, eu cefnogaeth a'u hanogaeth gyson a helpodd i wneud y cyflawniad hwn yn bosibl.

Cyfeiriadau

- Abbruscato, T. (2022). *Rethink Your Writing Process: On Recursion*. Medium. Gw. <https://medium.com/@tfabbru/rethink-your-writing-process-on-recursion-6fc03a374fec> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Adran Addysg y Deyrnas Unedig (2012b). *What is the Research Evidence on Writing?* Gw. <https://www.gov.uk/government/publications/what-is-the-research-evidence-on-writing> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Bañales, G., Ahumada, S., Graham, S., Puente, A., Guajardo, M. a Muñoz, I. (2020). 'Teaching Writing in Grades 4–6 in Urban Schools in Chile: A National Survey', *Reading and Writing*, 33, tt. 2661–96. Gw. <https://doi.org/10.1007/s11145-020-10055-z> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Bell, J. a Waters, S. (2018). *Doing Your Research Project: A Guide for First Time Researchers in Education, Health and Social Science*. 7fed Argraffiad. Maidenhead: Open University Press.
- Braun, V. a Clarke, V. (2022) *Thematic Analysis: A Practical Guide*. London: SAGE Publications.
- Brindle, M., Graham, S., Harris, K. R. a Hebert, M. (2016). Third and Fourth Grade Teachers' Classroom Practices in Writing: A National Survey. *Reading and Writing*, 29, tt. 929–54. DOI: 10.1007/s11145-015-9604-x (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- British Educational Research Association [BERA] (2024). *Ethical Guidelines for Educational Research*. 5ed Argraffiad. Gw. www.bera.ac.uk/publication/ethicalguidelines-for-educational-research-2024 (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Bryman, A. (2015). *Social Research Methods*. 5^{ed} Argraffiad. Oxford: Oxford University Press.
- Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2018). *Research Methods in Education*. 8fed Argraffiad. Abingdon: Routledge Continuum.
- Colins, J. (2001). *Good to Great: Why Some Companies Make the Leap... and Others Don't*. London: Random House Business Books.
- Corbett, P. a Strong, J. (2011). *Talk for Writing Across the Curriculum*. Maidenhead: Open University Press.
- Data Protection Act 2018 (2018). *Chapter 12*. London: The Stationery Office. Gw. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- De Abreu Malpique, A., Valcan, D., Pino-Pasternak, D. a Ledger, S. (2023). Teaching Writing in Primary Education (Grades 1–6) in Australia: A National Survey. *Reading and Writing*, 36, tt. 119–45. Gw. <https://doi.org/10.1007/s11145-022-10294-2> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Denscombe, M. (2014). *The Good Research Guide for Small Scale Social Research Projects*. Maidenhead: Open University Press.
- Denzin, N. K. a Lincoln, Y. S. (2017). *The SAGE Handbook of Qualitative Research*. 5ed Argraffiad. Thousand Oaks, CA: SAGE Publications.

- Dockrell, J. E., Marshall, C. R. a Wyse, D. (2016). Teachers' Reported Practices for Teaching Writing in England. *Reading and Writing*, 29(3), tt. 409–34. Gw. <https://doi.org/10.1007/s11145-015-9605-9> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Edwards, R. a Holland, J. (2013). *What is Qualitative Interviewing?* London: Bloomsbury Academic. Gw. <http://dx.doi.org/10.5040/9781472545244> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Estyn (2021). *laith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd*. Gw. <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Estyn%20English%20language%20and%20literacy%20W%284%29.pdf> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Flower, L. a Hayes, J. R. (1981). 'A Cognitive Process Theory of Writing', *College Composition and Communication*, 32, tt. 365–87. Gw. <http://dx.doi.org/10.2307/356600> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Fullan, M. (2010). *All Systems Go: The Change Imperative for Whole System Reform*. Thousand Oaks, California: Sage Publications.
- Fullan, M. (2011). *The Six Secrets of Change: What the Best Leaders Do to Help Their Organisations Survive and Thrive*. California: Jossey-Bass.
- Gilbert, J. a Graham, S. (2010). 'Teaching Writing to Elementary Students in Grades 4–6: A National Survey', *The Elementary School Journal*, 110, tt. 494–518. Gw. <http://dx.doi.org/10.1086/651193> (Cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S. (2018). 'A Revised Writer(s)-Within-Community Model of Writing', *Educational Psychologist*, 53(4), tt. 258–79. Gw. <https://doi.org/10.1080/00461520.2018.1481406> (Cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S. (2019). 'Changing How Writing Is Taught', *Review of Research in Education*, 43(1), tt. 277–303. Gw. <https://doi.org/10.3102/0091732X18821125> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S. a Gillespie, A. (2010) *Evidence Based Practices for Teaching Writing*. Gw. https://www.teachingandlearningnetwork.com/uploads/1/2/7/6/12764277/evidence_based_practices_for_teaching_writing_-_adapted.pdf (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S. a Rijlaarsdam, G. (2016). Writing Education Around the Globe: Introduction and Call for a New Global Analysis. *Reading and Writing*, 29, tt. 781–92. Gw. <http://dx.doi.org/10.1007/s11145-016-9640-1> (Cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S., Bollinger, A., Olson, C. B., D'Aoust, C., MacArthur, C., McCutchen, D. a Olinghouse, N. (2012). *Teaching Elementary School Students to be Effective Writers: A Practice Guide - NCEE 2012a–4058*. What Works Clearinghouse. Gw. <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED533112.pdf> (Cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Graham, S., Harris, K. R., MacArthur, C. A. a Fink, B. (2002). Primary Grade Teachers' Theoretical Orientations Concerning Writing Instruction: Construct Validation and A Nationwide Survey. *Contemporary Educational Psychology*, 27, tt. 147–66.
- Graham, S., Skar, G.B. a Falk, D.Y. (2021). Teaching Writing in the Primary Grades in Norway: A National Survey. *Reading and Writing*, 34, tt. 529–563. Gw. <https://doi.org/10.1007/s11145-020-10080-y> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).

- Gray, D. (2017). *Doing Research in the Real World*. London: Sage.
- Greetham, B. (2014). *Palgrave Study Skills: How to Write your Undergraduate Dissertation*. Hampshire: Palgrave Macmillan.
- Hargreaves, A., Boyle, A. a Harris, A. (2014). *Uplifting Leadership: How Organizations, Teams, and Communities Raise Performance*. New York: Jossey-Bass.
- Helen Bowen Education. (d.d.). Helen Bowen Education. Gw. <https://www.helenboweneducation.com/> (cyrchwyd: 20 Mawrth 2025).
- Hermansson, C., Jonsson, B., Levlin, M., Lindhé, A., Lundgren, B. a Norlund Shaswar, A. (2019). The (Non) Effect of Joint Construction in a Genre-based Approach to Teaching Writing, *The Journal of Educational Research*, 112(4), tt. 483–94.
- Kirsch, I., De Jong, J., Lafontaine, D., McQueen, J., Mendelovits, J. a Monseur, C. (2002). *Reading for change. Performance and Engagement Across Countries. Results of PISA 2000*. Paris, France: OECD.
- KPMG (2009). *Long Term Costs of Literacy Difficulties*. 2^{il} Argraffiad. Gw. https://readingrecovery.org/wp-content/uploads/2016/12/long_term_costs_of_literacy_difficulties_2nd_edition_2009.pdf (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Kvale, S. (2007). *Doing Interviews*. London: Sage Publications.
- Lune, H. a Berg, B. L. (2017). *Qualitative Research Methods for the Social Sciences*. London: Pearson Higher Education.
- Llywodraeth Cymru (2020). Cwricwlwm i Gymru. Llywodraeth Cymru. Gw. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>
- Ofsted (2005). *The National Literacy and Numeracy Strategies and the Primary Curriculum*. London, England: Office for Standards in Education, Children's Services and Skills.
- Parr, J. M. a Jesson, R. (2016). Mapping the Landscape of Writing Instruction in New Zealand Primary School Classrooms. *Reading and Writing: An Interdisciplinary Journal*, 29(5), tt. 981–1011. Gw. <https://doi.org/10.1007/s11145-015-9589-5> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Rietdijk, S., van Weijen, D., Janssen, T., van den Bergh, H. a Rijlaarsdam, G. (2018). Teaching Writing in Primary Education: Classroom Practice, Time, Teachers' Beliefs and Skills, *Journal of Educational Psychology*, 110(5), tt. 640–63. Gw. <https://doi.org/10.1037/edu0000237> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Sinek, S. (2009). *Start with Why*. New York: Portfolio Penguin.
- Street, H. a Timperley, J. (2005). *Improving Schools through Collaborative Enquiry*. New Zealand: University of Otago Press.
- The National Literacy Trust (2022). *Children and Young People's Writing in 2022*. Gw. <https://literacytrust.org.uk/research-services/research-reports/children-and-young-peoples-writing-in-2022/> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).
- Thomas, G. (2023). *How to Do Your Research Project*. 4ydd Argraffiad. London: Sage Publications.
- Walliman, N. (2022). *Research Methods – The Basics*. 3ydd Argraffiad. London: Routledge.
- White, M. J. a Bruning, R. (2005). Implicit Writing Beliefs and Their Relation to Writing Quality. *Contemporary Educational Psychology*, 30, tt. 166–89. Gw. <http://dx.doi.org/10.1016/j.cedpsych.2004.07.002> (cyrchwyd 27 Chwefror 2025).